

Croeso

Felly, methodd Mai i ddod â'r tywydd roedden ni wedi dychmygu ond (gobeithio) y gallwn ni oleuo'ch diwrnod drwy rannu llawer o newyddion gwych am y cynnydd positif rydyn ni wedi'i wneud wrth gyflenwi prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Erbyn hyn mae Ôl-osod er mwyn Optimeiddio wedi cyrraedd carreg filltir fawr arall, wrth i'r cyntaf o'n systemau IES gael eu gosod yn ein Cartrefi Braenaru ledled Cymru - mwy am hynny'n nes ymlaen.

Rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed hefyd gydag RSLs i ddatblygu strategaeth ymgysylltu â phreswylwyr ddiogel at y dyfodol i sicrhau bod preswylwyr yn hyderus am ymuno â ni ar y daith ôl-osod yma.

I sicrhau ein bod yn cyfathrebu mor effeithiol â phosib â phreswylwyr, rydyn ni wedi bod yn gweithio gydag arbenigwyr gwyddor ymddygiadol o Goleg Prifysgol Llundain, i'n helpu i fireinio'n negeseuon a'n dulliau cyfathrebu.

Darllenwch ymlaen i gael gwybod mwy....

Nodyn Atgoffa Cyflym am y Prosiect

Pwrpas prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yw creu'r prosesau mae eu hangen i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ledled Cymru.

Bydd y gwaith rydyn ni'n ei wneud ar y Cartrefi Braenaru a ddewiswyd yn gadael i ni ddatblygu a mireinio'r offer digidol mae eu hangen, a chael data dibynadwy am berfformiad a gweithrediad, i helpu i baratoi'r llwybr am ddatgarboneiddio cartrefi ledled Cymru yn y dyfodol.



Yn y Rhifyn Hwn

- Hyfforddiant Systemau Ynni Deallus yn digwydd a'r rhai cyntaf yn cael eu gosod
- Ymgysylltu â phreswylwyr
- Galw holl fusnesau a chrefftwyr Cymru
- Clywch am OR fel rhan o bodlediad diweddaraf BetaTalk
- Digwyddiad CE Wales 'Ôl-osod er mwyn Optimeiddio - recriwtio, hyfforddi a chyfarparu adeiladwyr Cymru'

Offer Digidol

Mae ein Systemau Ynni Dealladwy (IES) yn mynd rhagddynt.

Cynhaliodd rheolwr prosiect Sero gyfres o sesiynau hyfforddiant am y Systemau Ynni Dealladwy (IES) i'r holl bartneriaid ym Mai, i esbonio sut mae Peiriant Ynni Adeiladu Sero, neu gyfrifiadur rheoli, yn cyd-fynd â'r holl electroneg, ceblau, cyflenwadau pŵer, trosdderbynyddion di-wifr a dyfeisiau ynni cartref i wneud i Ôl-osod er mwyn Optimeiddio weithio.

Meddai Jim McArdell, Pennaeth Prosiectau Sero: "Mae Hyfforddiant Gosod wedi'i ddarparu gyda gosodwyr ac RSL sydd â diddordeb drwy gyfrwng dwy sesiwn cyflwyniadau Zoom.

Mae'r rhain yn cynnwys sesiynau holi ac ateb i annog unrhyw adborth am welliannau a gwelliant parhaus.

Mae cymorth gosod ar y safle yn cael ei gynnig hefyd i bob partner RSL am y

gosodiad IES cyntaf, sydd wedi'u derbyn yn bositif hyd yn hyn, unwaith eto'n cynnig cyfle am adborth a gwelliant parhaus.

Mae'r llawlyfr gosod a gafodd ei gynhyrchu yn cael ei ddiweddarau a'i fireinio'n gyson hefyd, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw adborth neu eglurhad mae eu hangen wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen."

Cafodd y sesiynau hyfforddiant hyn eu mynychu gan 65 o reolwyr prosiect a'u timau technegol.

Mae'r IES yn ganolog i lwyddiant cyflwyno OR o fewn pob cartref braenaru (ynghyd â mesurydd deallus), gan ei fod yn casglu gwybodaeth hanfodol am ddefnydd ynni o ddydd i ddydd (gan gynnwys gwres a dŵr poeth yn ogystal â dyfeisiau sy'n cael eu plygio i mewn fel tegell a pheiriant golchi).

Gan ddefnyddio technoleg ddeallus, mae modd defnyddio'r wybodaeth yma wedyn i ddeall y ffordd fwyaf effeithiol o leihau defnydd ynni cyffredinol pob cartref yn gyson.

Mae hyn yn cymryd i ystyriaeth ffordd o fyw a dewisiadau cysur y preswylwyr, i helpu i leihau biliau ynni a lleihau ôl-troed carbon y cartref.

Bydd blog sy'n esbonio mwy am yr IES ar y wefan cyn hir – felly daliwch ati i'w dilyn!



Economi Sylfaenol

Ydych chi'n fusnes neu'n grefftwr yng Nghymru sy'n gweithio ym meysydd adeiladu, adeiladwaith neu gynnal a chadw?

Mae arnon ni angen fusnesau a chrefftwyr medrus yng Nghymru i'n helpu i wneud cartrefi ledled Cymru yn fwy ynni-ffeithlon ac ecogyfeillgar - trwy gyflenwi'r rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio.

Mae'r prosiect yn rhan o fuddsoddiad ehangach Llywodraeth Cymru i leihau ôl-troed carbon holl gartrefi Cymru, ar ôl ymrwymo £50 miliwn arall am y flwyddyn ariannol hon yn barod.



Mae llawer o waith i'w wneud!

Mae gan Gymru gyfanswm o 1.4m o gartrefi y bydd angen eu huwchraddio erbyn 2050 – felly er mai tai cymdeithasol yw'r ffocws cychwynnol, mae angen cyflwyno ôl-osod i landlordiaid preifat yn ogystal â pherchentywyr.

Bydd hyn yn helpu i wneud cartrefi'n fwy ynni-ffeithlon (gan helpu i fynd i'r afael ag argyfwng yr hinsawdd) a lleihau biliau i breswylwyr.

Cymerwch ran: helpwch ni i ôl-osod Cymru

Os hoffech chi chwarae rhan mewn helpu i gyflenwi'r prosiect cyffrous a blaengar yma, a fydd yn helpu i siapio'r diwydiant adeiladu fel rydyn ni'n ei adnabod, yna rydyn ni am glywed gennych chi!

Cofrestrwch eich diddordeb drwy lenwi ffurflen ar-lein fyr yma:

[Ôl-osod er Mwyn Optimeiddio](https://tractivity.co.uk)
(tractivity.co.uk)

Ymgysylltu â Phreswylwyr

Optimeiddio Cyfathrebu!

Mae'r rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio yn gysyniad hynod arloesol sy'n defnyddio rhai technolegau cwbl flaengar.

Fodd bynnag, efallai bod beth sy'n teimlo'n arloesol ac yn gyffrous i rai pobl yn teimlo'n anghyfarwydd ac yn achos pryder i eraill.

Felly mae sicrhau ein bod ni'n cyfathrebu'n effeithiol â phobl sy'n ganolog i'r broses hon, sydd yn y pen draw yn wynebu newid ac amhariaeth o fewn eu cartrefi, wrth reswm yn ystyriaeth graidd sy'n sail i lwyddiant parhaus y rhaglen.

Gan hynny, er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o sut dylen i fod yn cyfathrebu am ôl-osod, y mis yma rydyn ni wedi dechrau gweithio gyda'r adran [Newid Ymddygiad](#) yng [Ngholeg Prifysgol Llundain \(UCL\)](#).

Gan ddefnyddio eu dealltwriaeth o ysgogiad a newid ymddygiad, byddwn ni'n dal i ddatblygu, profi a mireinio'n negeseuon i sicrhau bod dealltwriaeth o ôl-osod ymhlith preswylwyr, yn ogystal â'r sawl sy'n ymwneud â chyflenwi'r broses ôl-osod, a'r cyhoedd yn ehangach.

Rydyn ni'n gweithio hefyd i sicrhau bod gan bartneriaid yr wybodaeth lawn mae ei hangen i allu egluro i breswylwyr a'u sicrhau pan fo angen.

Yn rhan o hyn, cynhalion ni sesiwn hyfforddiant yr wythnos hon i swyddogion cyswllt tenantiaid (neu unrhyw un sy'n siarad â phreswylwyr o ddydd i ddydd), gyda ffocws ar feithrin dealltwriaeth o'r prosiect, ac edrych ar negeseuon a dulliau o ymgysylltu.



Podlediad BetaTalk

Rhag ofn i chi ei golli, yr wythnos diwethaf cafodd Tymor 4 [podlediad BetaTalk](#) rhagorol ei lansio, wedi'i gyflwyno gan y dylanwadwr diwydiant Nathan Gambling.

Fel rhan o'n cenhadaeth i ledu gair am Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (yn arbennig ymhlith cyflenwyr a chrefftwyr y dyfodol) – rydyn ni'n noddi Tymor 4 y podlediad, sy'n edrych ar faterion ar y llawr fel maes technoleg, sgiliau a hyfforddiant, gyda pheirianwyr ledled y wlad.

Mae'r episod cyntaf yn cynnwys Lee Fisher o Sero, peiriannydd profiadol ei hun, a Steve Webster.

Gwrandewch yma - <https://bit.ly/3ygsV1N>

Blogiau

Nod 'Cyfres partneriaid y prosiect ...' yw cynnig cyfle i bob partner cydweithrediad Ôl-osod er mwyn Optimeiddio ddweud eu dweud am bynciau allweddol mewn perthynas â'r prosiect.

Mae'n blatfform i rannu arfer gorau, dulliau, syniadau ac, yn y pen draw, rôl pob partner wrth sicrhau ein bod ni'n cyflenwi etifeddiaeth wirioneddol barhaus.

RSAW 
Architecture.com/wales

Make the
future 
yours!



Yn yr wythnosau diwethaf rydyn ni wedi clywed oddi wrth:

- **Chris Jofeh**, Cadeirydd bwrdd prosiect Ôl-osod er mwyn Optimeiddio,
- **Elinor Weekley**, Cyfarwyddwr Cymdeithas Frenhinol y Penseiri yng Nghymru, sy'n trafod llwyddiant y rhaglen DPP hyd yma, a
- **Claire Sutton**, Golygydd Make the Future Yours, ar sut dechreuodd hi ysgrifennu a llwyddiant y cylchgrawn

Cliciwch [yma](#) i gael eich atgyfeirio at ein blog sydd nawr yn fyw.

Digwyddiadau

CE Wales - Ôl-osod er mwyn Optimeiddio - recriwtio, hyfforddi a chyfarparu diwydiant adeiladu Cymru, 8 Mehefin am 1pm

Er mwyn i'r rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio lwyddo mae angen i ni recriwtio, hyfforddi a chyfarparu diwydiant adeiladu Cymru.

Dyma fan cychwyn beth fydd yn ymgymeriad anferth a hanfodol a gaiff ei arwain

gan galon fyw diwydiant adeiladu Cymru: adeiladwyr bach, plymwyr, trydanwyr, masnachwyr offer adeiladu a'u cyflenwyr.

Ond beth mae'n ei olygu'n ymarferol? Pam mae cystal? Pam yr holl ffwdan? Sut allwch chi gymryd rhan?



Mynnwch wrando ar y gweminar byw i glywed gan rai o chwaraewyr allweddol y consortiwm Ôl-osod er mwyn Optimeiddio:

- **Andy Sutton**, Cyd-sylfaenydd, Cyfarwyddwr Dylunio ac Arloesi, Sero / **Alun Watkins**, Rheolwr Prosiect, Sero – sy'n disgrifio'r rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio
- **Wyn Pritchard**, Cyfarwyddwr Sgiliau Adeiladu a Strategaeth Fusnes, Grŵp NPTC – sy'n esbonio'r sgiliau a hyfforddiant i gyflawni'r dasg
- **Glen Finch**, Cydymaith, Ark Consultancy – sut mae cymryd rhan
- **Paul Gibson**, Cyfarwyddwr, Gibson STS Ltd – beth mae'n ei olygu ar gyfer SME

Byddan nhw'n esbonio pam mae datgarboneiddio cartrefi Cymru mor bwysig, sut allai'r cam cyntaf hwn yn y daith effeithio ar drawsnewid 1.4m arall o gartrefi yng Nghymru i Sero Net a'r rôl i adeiladwyr, plymwyr, trydanwyr a masnachwyr Cymru.

Cliciwch [yma](#) os hoffech chi ymuno â ni yn y digwyddiad!

Hoffen ni Glywed Gennyh Chi!

Os hoffech chi ddysgu mwy am y Rhaglen Optimeiddio, gallwch gael yr wybodaeth ddiweddaraf neu gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

Ewch i: [Optimised Retrofit – Sero Group](#)

E-bost: optimisedretrofit@sero.life

Dilynwch ni ar Twitter: [@OptimisedR](#)

Dilynwch ni ar LinkedIn: [Optimised Retrofit](#)

